# Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# Cynllun Corfforaethol 2016- 2023

**Tachwedd 2019**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Ein gweledigaeth a’n gwerthoedd

3. Amdanom ni

4. Ein hamcanion corfforaethol

5. Ein blaenoriaethau

6. Gwireddu ein nodau

7. Cyllid

8. Gwybodaeth ychwanegol

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD
CF24 0BL

Rhif ffôn: (029) 2046 4819
E-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cffdl.llyw.cymru

## 1. Cyflwyniad

Mae’r Cynllun Corfforaethol hwn, ar gyfer y cyfnod 2016 – 2023, wedi’i ddiweddaru yn dilyn gweithredu ‘Rhaglen Newid’. Mae’n ofynnol i’r Comisiwn ymgymryd â rhaglen o arolygon o drefniadau etholiadol y 22 prif gyngor yng Nghymru. Mae’n rhaid i’r rhaglen hon gael ei chwblhau mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, y bydd angen i’r arolygon olaf yn y rhaglen gael eu cwblhau erbyn yr haf 2021 fan bellaf i ganiatáu digon o amser i baratoi ar gyfer yr etholiadau. Bydd graddfa a phwysigrwydd y rhaglen hon o arolygon yn cynrychioli rhan helaeth o waith y Comisiwn yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol hwn.

**Ceri Stradling**
**Cadeirydd Dros Dro**

## 2. Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Ein Gweledigaeth

Creu Trefniadau Etholiadol ar draws y Prif Gynghorau yng Nghymru gyda'r nod o hyrwyddo democratiaeth trwy gynrychiolaeth etholiadol decach, trwy greu ffiniau sy'n ystyrlon i etholwyr ac sy'n parchu clymau cymunedol a chysylltiadau daearyddol.

Ein Gwerthoedd

Annibynnol – Rydym yn gorff annibynnol, diduedd yn wleidyddol.

Cynhwysol - Ymgysylltwn yn helaeth gyda Chynghorau, rhanddeiliaid, y cyhoedd a staff er mwyn llywio ein penderfyniadau a lledaenu gwybodaeth.

Seiliedig ar dystiolaeth – Ystyriwn ddata, gwybodaeth a chynrychiolaethau er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyson â'n polisi ac arfer, gyda deddfwriaeth yn sail i hynny.

Tryloyw - Cydymffurfiwn â chanllawiau'r gwasanaeth sifil a sicrhawn fod llywodraethu cadarn ar waith o fewn ein sefydliad a'i brosesau.

## 3. Amdanom ni

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd ar ei ffurf wreiddiol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan ei enw a'i swyddogaethau presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Dyletswydd y Comisiwn o dan y Ddeddfwriaeth yw monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a thri Aelod. Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n cynnwys y Dirprwy Gadeirydd a dau Aelod ac Aelod Annibynnol.

Cefnogir y Comisiwn gan Ysgrifenyddiaeth a arweinir gan Brif Weithredwr sydd â Swyddfa yng Nghaerdydd.

Mae fframwaith wedi cael ei gytuno rhwng y Comisiwn a'i Is-adran Noddi yn Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol). Mae hwn yn amlinellu'r fframwaith y mae'r Comisiwn yn gweithredu o'i fewn ac yn

manylu ar y telerau a'r amodau sy'n rheoli sut mae Gweinidogion Cymru'n darparu cymorth grant i'r Comisiwn.

Bob blwyddyn, mae Gweinidogion Cymru yn gosod nodau polisi'r Llywodraeth a'i meysydd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol trwy gyfrwng Llythyr Cylch Gorchwyl at y Comisiwn. Mae'r llythyr Cylch Gorchwyl hefyd yn cynnwys manylion y ffigur cymorth grant a bleidleisiwyd a chyfansymiau rheolaeth gyllidebol cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae'r Ysgrifenyddiaeth hefyd yn cynorthwyo'r Comisiwn Ffiniau i Gymru sy'n gyfrifol am arolygu etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Ariennir yr Ysgrifenyddiaeth ar wahân gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y gwaith hwnnw.

## 4. Ein hamcanion corfforaethol

Mae amcanion corfforaethol y Comisiwn fel a ganlyn:

- Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – datblygu rhaglen o arolygon etholiadol yn unol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn addas i'r diben – Gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn cael eu harolygu'n rheolaidd a'u cydlynu gyda'r rhaglen o arolygon etholiadol.

- Sicrhau bod ffiniau ardaloedd prif gyngor yn addas i'r diben – Arolygu ffiniau prif ardaloedd fel y bo'n briodol.

- Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein busnes – Cynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyson i greu enw da am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn a sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.

- Sicrhau bod egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r iaith Gymraeg wedi'u hymsefydlu yn ein gwaith.

## 5. Ein blaenoriaethau

### Trefniadau Etholiadol Prif Ardaloedd

Byddwn yn ymgymryd â rhaglen o arolygon o drefniadau etholiadol yr ardaloedd prif gyngor yn gyfnodol fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob

prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Dechreuodd y cyfnod deng mlynedd ar ddechrau mis Hydref 2013 a daw i ben ar ddiwedd mis Medi 2023.

Ym mis Mehefin 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Comisiwn i ofyn iddo gynnal rhaglen o arolygon etholiadol i'w chwblhau mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Cytunwyd ar amserlen ar gyfer yr arolygon ac fe'i cyhoeddwyd yn rhan o ddogfen Polisi ac Ymarfer ddiwygiedig ym mis Tachwedd 2016. Rhoddir y rhaglen arolygu yn Atodiad A.
Cyn diwedd mis Medi 2023, bydd y Comisiwn yn llunio rhaglen 10 mlynedd arall o arolygon i'w chytuno gyda Llywodraeth Cymru.

**Ffiniau Cymunedol a Threfniadau Etholiadol**

Byddwn yn gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn cael eu harolygu'n rheolaidd.

Bob deng mlynedd, mae'n ofynnol i bob prif gyngor adrodd i'r Comisiwn ar sut mae wedi cyflawni ei ddyletswydd i fonitro'r cymunedau a threfniadau etholiadol y cymunedau yn ei ardal a, lle y bo'n briodol, yn dilyn arolwg, gwneud neu argymell newidiadau. Byddwn yn ystyried y cyfryw adroddiadau wrth iddynt gael eu derbyn ac yn adrodd ar ein canfyddiadau ac, os yw'n briodol, ein hargymhellion, yn ôl i'r prif gyngor a Gweinidogion Cymru.

Ar ôl i brif gyngor arolygu ei ffiniau cymunedol, fe allai gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau. Byddwn yn ystyried y cyfryw adroddiadau wrth iddynt gael eu derbyn. Yn dilyn ein hystyriaeth, gallem wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r newidiadau heb eu haddasu neu wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r newidiadau gydag addasiadau y cytunwyd arnynt gyda'r prif gyngor. Mewn rhai amgylchiadau (fel y'u disgrifir gan Ddeddf 2013), gallem benderfynu cynnal ein harolwg ein hunain.

**Ffiniau Prif Ardaloedd**

Caiff y Comisiwn, ar ei fenter ei hun, yn dilyn cais gan awdurdod lleol neu o ganlyniad i Gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, arolygu ffiniau un brif ardal neu fwy.

Ni ddisgwylir i arolygon o'r fath ddigwydd yn aml. Er mwyn rhagweld yr angen am newidiadau o'r fath, byddwn yn gweithio gyda'r prif gynghorau i fonitro newidiadau, fel tai neu ddatblygiadau eraill, a allai arwain at yr angen am arolygu ffiniau.

**Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Busnes**

Byddwn yn cynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyson i greu enw da am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn ac yn sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.

Wrth gyflawni ein dyletswyddau, byddwn yn gweithredu yn unol â saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan: anhunanoldeb, unplygrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Byddwn yn cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol a bydd gennym Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a fydd yn cynghori'r Comisiwn ar gyflawni ei gyfrifoldeb am lywodraethu trylwyr ac effeithiol, ac ar gyflawni ei gyfrifoldebau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gennym Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru sy'n gosod y fframwaith cyffredinol y mae'r Comisiwn yn gweithredu o'i fewn ac sy'n manylu ar delerau ac amodau Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu cymorth grant i'r Comisiwn. Amlinellir gofynion cyfrifyddu ac adrodd statudol y Comisiwn yn adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Mae'r Comisiwn yn cynnal Strategaeth Gyfathrebu sy'n amlinellu sut y bydd y Comisiwn yn defnyddio ei gapasiti cyfathrebu a materion cyhoeddus i sicrhau ei fod yn:

- Bodloni ei rwymedigaeth statudol i ymgynghori'n gyhoeddus yn rhan o'i waith arolygu.
- Annog cyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel i'w gynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Hyrwyddo perthynas gadarnhaol ac adeiladol â phartneriaid sy'n dylanwadu ar waith y Comisiwn a gwella bodlonrwydd cwsmeriaid.

Ceisiwn ddatblygu sgiliau aelodau staff trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn seiliedig ar anghenion y Comisiwn a'r unigolion.

**Cynnal Egwyddorion**

Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r iaith Gymraeg wedi'u hymsefydlu yn ein gwaith.

Mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor arweiniol ganolog ar gyfer holl weithgareddau'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaethau a pholisïau, darparu gwasanaethau, gwaith partneriaeth a'r ffordd y caiff y sefydliad ei gynnal. Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd cylch gorchwyl y Comisiwn, sef gwneud argymhellion mewn perthynas ag arolygon ffiniau awdurdod lleol ac etholiadol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Wrth gyflwyno polisïau newydd, mae'r Comisiwn yn rhoi ystyriaeth i gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.

Rydym ni'n gwbl ymrwymedig i'r egwyddorion sydd wrth wraidd y gofynion deddfwriaethol a osodir ar y sefydliad mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn ceisio blaenoriaethu cyfle cyfartal wrth benodi neu secondio i staff y Comisiwn. Yn unol â'r fenter hon, byddwn yn adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau mewnol yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau ac yn adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cymru, a bod yr effaith ar gydraddoldeb yn cael ei hasesu. Byddwn yn annog aelodau

staff i wella eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth a bod yn ymwybodol o newidiadau i ddeddfwriaeth trwy ddarparu hyfforddiant priodol a chyfleoedd i roi'r egwyddorion a ddysgwyd ar waith. Rydym ni hefyd yn ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus trwy gynyddu nifer y menywod a'r grwpiau eraill a dangynrychiolir mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu ar y mater hwn.

Rydym ni'n llwyr gefnogi polisi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a byddwn yn parhau i ystyried y Gymraeg yn ein holl weithgareddau. Rydym ni'n gweithredu'n gwbl ddwyieithog ac mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddedig yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith, ar yr un pryd. Rhoddir cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio'r iaith o'u dewis bob tro y byddant yn cysylltu â'r Comisiwn. Rydym ni'n datblygu gweithdrefn a fydd yn sicrhau bod yr effaith bosibl ar y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o'n proses arolygu ac wrth ystyried cynigion prif gynghorau. Yn ogystal â'r weithdrefn hon, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i gynnwys fel ymgynghorai yn ystod ein harolygon. Rydym ni hefyd yn datblygu gweithdrefnau mewn perthynas â pholisïau a gwasanaethau a fydd yn hyrwyddo ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y Comisiwn fel mater o drefn. Rydym ni'n ymrwymedig i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod gwaith y Comisiwn yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg.

## 6. Gwireddu ein nodau

I gyflawni ein Cynllun, byddwn yn canolbwyntio ar bedwar peth: arweinyddiaeth, strategaeth, darparu a llywodraethu:

- arweinyddiaeth – byddwn yn:
    - gosod cyfeiriad eglur
    - gweithio i annog ein rhanddeiliaid i gymryd rhan
    - cymryd cyfrifoldeb am arwain newid
    - cynyddu capasiti ein staff
- strategaeth – gan ddilyn fframwaith polisi Llywodraeth Cymru – byddwn yn:
    - disgrifio'r canlyniadau y dymunwn eu cyflawni mewn ffordd eglur a chymhellol
    - dangos bod y dewisiadau y bu'n rhaid i ni eu gwneud wedi'u seilio ar farn wybodus ac ymchwil ddilys
    - datblygu ymdeimlad o ddiben cyffredin yn y gymuned llywodraeth leol sy'n uno gweithredu ar amcanion ein strategaeth
- darparu – yn seiliedig ar ein blaenoriaethau strategol – byddwn yn:

    - cynllunio, blaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen weithgareddau a fydd yn cyflawni ein hamcanion
    - datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau darparu eglur (yn fewnol ac yn allanol)
    - rheoli, monitro (gan gynnwys ceisio adborth gan randdeiliaid) ac adrodd ar ein perfformiad

- llywodraethu – gan ddilyn arfer da o ran gwasanaeth cyhoeddus – byddwn yn:

    - rheoli risgiau ac adrodd arnynt
    - gweithredu system effeithiol o adrodd a rheolaeth ariannol

## 7. Cyllid

Wedi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20, y cymorth grant a osodwyd ar gyfer y Comisiwn oedd £895,650 ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, byddwn yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid priodol i gynnal rhaglen gytunedig o arolygon etholiadol ac ymgymryd â gwaith ar arolygon cymunedol fel y bo'r angen.

## 8. Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Comisiwn ar gael ar ein gwefan yn www.cffdl.llyw.cymru

Atodiad A

| | 2017 | | | | 2018 | | | | 2019 | | | | 2020 | | | | 2021 | | | | 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
| **Ceredigion** | C | | | D | | | | | | T | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwynedd** | C | | | D | | | | T | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Powys** | C | | | | D | | | | T | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Conwy** | | C | | | D | | | | | T | | | | | | | | | | | | | | |
| **Sir Benfro** | | | C | | | D | | | | | T | | | | | | | | | | | | | |
| **Torfaen** | | | C | | | D | | T | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Sir Gaerfyrddin** | | | | C | | | D | | | | T | | | | | | | | | | | | | |
| **Sir Ddinbych** | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | | | | | C | | D | | | T | | | | | | | | | | | | | | |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | | | | C | | | | D | | | T | | | | | | | | | | | | |
| **Merthyr Tudful** | | | | | | S | | | | D | | T | | | | | | | | | | | | |
| **Abertawe** | | | | | | C | | | | | D | | T | | | | | | | | | | | |
| **Castell-nedd Port Talbot** | | | | | | | C | | | | | D | | | T | | | | | | | | | |
| **Rhondda Cynon Taf** | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | | | | | |
| **Wrecsam** | | | | | | | | C | | | | | D | | | T | | | | | | | | |
| **Sir y Fflint** | | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | | | | |
| **Casnewydd** | | | | | | | | | C | | | | D | | | T | | | | | | | | |
| **Caerffili** | | | | | | | | | C | | | | D | | | T | | | | | | | | |
| **Caerdydd** | | | | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | | |
| **Bro Morgannwg** | | | | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | | |
| **Ynys Môn** | | | | | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | | | |
| **Sir Fynwy** | | | | | | | | | | | | | C | | | D | | | T | | | | | |

C – Cychwyn yr arolwg D – Cynigion Drafft T – Cynigion Terfynol